## TROSI

**<u>Y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl</u>**

Pan fyddwch yn gwneud cais am gyfieithiad, gallwch ddewis atodi dogfen i'w chyfieithu neu gallwch deipio testun byr (hyd at 50 o eiriau) yn y blwch perthnasol.

Yn arferol, gobeithiwn allu cyflenwi'r cyfieithiadau byr (hyd at 50 o eiriau) o fewn 24 awr.

Bydd yr amser y bydd yn ei gymryd i gyfieithu dogfen yn dibynnu ar faint a natur y gwaith ac hefyd ar lwyth gwaith y cyfieithwyr ar y pryd. A chymryd bod y cyfieithwyr i gyd yn eu gwaith, nodir isod amcangyfrif o faint o amser a gymer i gyfieithu dogfennau pan fydd eu hangen ar fyrder. Gorau oll os gallwch ganiatáu llawer mwy o amser i gyfieithu'r gwaith.

| Maint | Amser |
|---|---|
| Hyd at 50 gair | diwrnod/24 awr |
| 200 - 1,000 gair | 3 diwrnod/72 awr |
| 1,000 - 2,500 gair | 4 diwrnod/96 awr |
| 2,500 - 4,000 gair | 10 diwrnod/240 awr |
| dros 5,000 | i'w drafod |

I drafod eich anghenion, gallwch anfon neges e-bost at weinyddwr trosi ar trosi.gweinyddu@gllm.ac.uk

RhE
28.10.13